Cefnogi'r etholiadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar 5 Mai 2016

Y Comisiwn Etholiadol

Canllaw cyflym i staff gorsafoedd pleidleisio

Dylai'r canllaw hwn ategu *Llawlyfr ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio* y Comisiwn. Mae'r cyfeiriadau at dudalennau a geir yn y canllaw hwn yn dangos lle gellir cael gwybodaeth fanylach yn y llawlyfr.

Pwy all bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio? tt 13–14

Mae llythrennau wrth ymyl cofnod etholwr ar y gofrestr yn pennu p'un a gaiff bleidleisio yn yr etholiadau ai peidio. Dim ond yr etholwyr canlynol a **all** gael papurau pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio:

Llythrennau	Pwy
Dim llythrennau	Etholwyr cyffredin
Dim llythrennau +N	Etholwyr sydd wedi cofrestru'n ddienw
Dyddiad ar neu cyn y diwrnod pleidleisio	Etholwyr sy'n cyrraedd 18 oed ar neu cyn y diwrnod pleidleisio (oni fydd A, E neu F wrth ymyl eu henw hefyd)
G neu G+N	Dinasyddion penodol aelod-wladwriaethau'r UE
K neu K+N	Dinasyddion penodol aelod-wladwriaethau'r UE
L neu L+N	Cyfoedion

Pwy na all bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio? t 14

Ni chaiff yr etholwyr canlynol bapurau pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio:

Llythrennau	Pwy
Dyddiad ar ôl y diwrnod pleidleisio	Etholwyr na fyddant yn 18 oed tan ar ôl y diwrnod pleidleisio
A neu A+N	Pleidleiswyr drwy'r post
E neu E+N	Cyfoedion tramor
F neu F+N	Etholwyr tramor

Beth yw'r broses bleidleisio arferol?

tt 12–15

Cam 1 – cadarnhau pwy yw'r pleidleisiwr	Dechreuwch drwy gyfarch yr etholwr a gofyn iddo ddweud beth yw ei enw a'i gyfeiriad.
	Cadarnhewch ei fod yn gymwys i bleidleisio yn yr etholiadau drwy edrych ar ei gofnod ar y gofrestr.
	Tynnwch linell syth yn erbyn (ond nid drwy) gofnod y pleidleisiwr ar y gofrestr.
	Darllenwch ei enw a'i rif etholiadol (sy'n cynnwys cyfeirnod y dosbarth pleidleisio) o'r gofrestr yn uchel.
Cam 2 – rhoi'r papurau pleidleisio	Ysgrifennwch rif yr etholwr ar y rhestr neu restrau rhifau cyfatebol wrth ymyl y rhifau papur pleidleisio perthnasol.
	Sicrhewch fod y papurau pleidleisio a roddir yn cynnwys y marc swyddogol.
	Plygwch y papurau pleidleisio ac yna eu rhoi i'r pleidleisiwr **heb eu plygu**. Gofynnwch iddo eu hailblygu unwaith y bydd wedi marcio ei bapurau pleidleisio yn y bwth pleidleisio.
Cam 3 – pleidleisio	Mae'r pleidleisiwr yn marcio'r papurau pleidleisio ym mhreifatrwydd y bwth pleidleisio.
	Gofynnwch i'r pleidleisiwr ddangos rhif y papur pleidleisio a'r marc adnabod unigryw ar gefn y papurau pleidleisio cyn iddo eu rhoi yn y blwch neu'r blychau pleidleisio.

Beth os yw'r canlynol yn wir?

Nid yw'r sawl sydd â'r allwedd wedi cyrraedd?

t 6

Dylech geisio cysylltu â'r sawl sydd â'r allwedd. Os oes angen, gwnewch drefniadau amgen, e.e. creu gorsaf bleidleisio dros dro yng nghefn y car. Hysbyswch y swyddfa etholiadau. Rhaid i'r cyfnod pleidleisio ddechrau am 7am.

Mae etholwr yn difetha papur pleidleisio?

t 15

Dylech ganslo'r papur pleidleisio a ddifethwyd a'i roi yn yr amlen briodol. Ysgrifennwch 'canslwyd/cancelled' ar y rhestr rhif cyfatebol a rhoi papur pleidleisio arall i'r etholwr.

Ni all etholwr ddod i mewn i'r orsaf bleidleisio?

t 21

Dylech fynd â'r papurau pleidleisio allan at yr etholwr ar ôl hysbysu unrhyw asiantiaid sy'n bresennol. Sicrhewch fod y bleidlais yn gyfrinachol ar bob adeg.

Mae angen cymorth ar etholwr anabl? tt 21–23
Cynigwch ei helpu. Eglurwch pa gymorth sydd ar gael.

Mae'r sawl sydd wedi gofyn am bapurau pleidleisio yn ymddangos ar y gofrestr fel rhywun sydd wedi pleidleisio'n barod? tt 39; 35
Dylech edrych i weld a wnaeth benodi dirprwy. Os na wnaeth hynny, dilynwch y broses ar gyfer papurau pleidleisio a gyflwynwyd. Gofynnwch y cwestiynau rhagnodedig cyn rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd. Peidiwch â rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd os na chaiff y cwestiynau eu hateb yn foddhaol. Hysbyswch y swyddfa etholiadau.

Mae etholwr â'r llythyren 'A' ar y gofrestr yn dweud na wnaeth gais i bleidleisio drwy'r post? tt 26–27
Peidiwch â rhoi papurau pleidleisio cyffredin.
Os cafodd ei bleidlais bost: dylech ei annog i'w dychwelyd i'r orsaf bleidleisio neu'r swyddfa etholiadau cyn 10pm. Os nad yw am ei dychwelyd, dilynwch y weithdrefn ar gyfer papurau pleidleisio a gyflwynwyd.
Os na chafodd ei bleidlais bost: os yw cyn 5pm, dywedwch wrtho i fynd i'r swyddfa etholiadau i gael un arall; os yw ar ôl 5pm, neu os nad yw am gael un arall, dilynwch y weithdrefn ar gyfer papurau pleidleisio a gyflwynwyd. Gofynnwch y cwestiynau rhagnodedig cyn rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd. Peidiwch â rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd os na chaiff y cwestiynau eu hateb yn foddhaol.

Mae etholwr yn honni iddo golli neu beidio â derbyn ei bleidlais bost? t 27
Cyn 5pm: dywedwch wrtho i fynd i'r swyddfa etholiadau i gael un arall.
Ar ôl 5pm: dilynwch y broses ar gyfer papurau pleidleisio a gyflwynwyd. Gofynnwch y cwestiynau rhagnodedig cyn rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd. Peidiwch â rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd os na chaiff y cwestiynau eu hateb yn foddhaol.

Mae pleidleisiwr yn gofyn sut i gwblhau ei bapur pleidleisio? t 16
Darllenwch y cyfarwyddiadau sydd ar frig y papurau pleidleisio ynghyd â manylion yr ymgeiswyr neu'r pleidiau yn y drefn y maent yn ymddangos ar y papurau pleidleisio yn uchel.

Nid yw unigolyn yn ymddangos ar y gofrestr nac unrhyw hysbysiad? tt 24–25
Peidiwch â rhoi papurau pleidleisio. Dywedwch wrth y pleidleisiwr i fynd i'r swyddfa gofrestru etholiadol.

Mae etholwr yn rhoi cerdyn pleidleisio i chi heb enw na chyfeiriad? t 30

Anfonir cardiau pleidleisio fel hyn at etholwyr sydd wedi cofrestru'n ddienw. Peidiwch â gofyn am enw a chyfeiriad yr etholwr. Dilynwch y weithdrefn ar gyfer rhoi papurau pleidleisio i etholwr dienw.

Mae etholwr am ddychwelyd ei bleidlais bost i'r orsaf bleidleisio? t 26

Edrychwch i weld a ellir dychwelyd y bleidlais bost i'r orsaf bleidleisio. Os felly, rhowch hi yn y pecyn a ddarparwyd. Os na ellir gwneud hynny, neu os nad ydych yn siŵr, dywedwch wrth y pleidleisiwr i fynd i'r swyddfa etholiadau.

Mae unigolyn yn gofyn am gael pleidleisio ar ran rhywun sydd wedi cael argyfwng meddygol? t 28

Dylech ond rhoi papurau pleidleisio iddo os yw wedi'i benodi'n swyddogol yn ddirprwy mewn argyfwng. Os nad ydyw, eglurwch y gellir penodi dirprwyon mewn argyfwng tan 5pm, a dywedwch wrtho i fynd i'r swyddfa gofrestru etholiadol i gael rhagor o wybodaeth am y broses hon.

Rydych chi, neu rywun arall, yn amau nad y sawl sy'n gofyn am bapurau pleidleisio yw'r person y mae'n dweud ydyw? t 39

Cyn – a dim ond cyn – rhoi papurau pleidleisio, caiff y Swyddog Llywyddu ofyn y cwestiynau rhagnodedig. Mae gan asiantiaid yr hawl i'w gwneud yn ofynnol i Swyddogion Llywyddu ofyn y cwestiynau hyn. Os cânt eu hateb yn foddhaol, rhaid rhoi papurau pleidleisio cyffredin. Ni ellir gofyn unrhyw gwestiynau eraill ynghylch hawl rhywun i gael papurau pleidleisio. Hysbyswch y swyddfa etholiadau.

Ceir digwyddiad difrifol sy'n tarfu ar bethau (e.e. tân, llifogydd ac ati)? tt 37–38

Peidiwch â rhoi unrhyw un mewn perygl. Os yw'n ddiogel gwneud hynny, crëwch orsaf bleidleisio arall gerllaw. Hysbyswch y swyddfa etholiadau.

Manylion cyswllt

Os nad ydych yn siŵr am unrhyw weithdrefn a ddisgrifir yn y llawlyfr hwn, neu fod angen i chi gysylltu â'r swyddfa etholiadau neu'r swyddfa gofrestru etholiadol am unrhyw reswm arall, cysylltwch â: